



## Disgrifiad Swydd

<b>Teitl y swydd:</b>	Rheolwr Perthnasoedd
<b>Yn atebol i:</b>	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Darparu Systemau Chwaraeon a Pherthnasoedd
<b>Yn gyfrifol am:</b>	I'w gadarnhau

### Pwrpas y Swydd

Pwrpas Chwaraeon Cymru yw galluogi Chwaraeon yng Nghymru i ffynnu. Bydd ein perthnasoedd â'n partneriaid, yn y pen draw, yn pennu ein gallu i gyflawni hyn. Yn ein strategaeth, rydym wedi ymrwymo i ddull o weithredu sy'n cydnabod y bydd angen i ni weithio mewn ffordd wahanol iawn gyda'n partneriaid. Fel ein rhyngwyneb allweddol, byddwch yn ymgorfforiad o'r ffordd hon o weithio, ac yn gyfrifol am ei llwyddiant. Bydd hyn yn fwy heriol byth mewn rôl sy'n esblygu'n gyson ac yn ymatebol, lle bydd anghenion y berthynas yn bwrpasol i bob partner.

Byddwch yn datblygu ac yn cynnal perthnasoedd rhagorol, dibynadwy gydag uwch arweinwyr i gefnogi, datblygu a herio uchelgeisiau strategol a sbarduno newid trawsnewidiol, newid diwylliant a gwelliant parhaus.

Drwy eich perthnasoedd, byddwch yn meithrin dealltwriaeth drylwyr o'n partneriaid: eu diwylliant, eu dull gweithredu, yr heriau maent yn eu hwynebu a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Bydd arnoch angen y gallu i brocio i sicrhau dealltwriaeth ddyfnach a'r sgiliau i wneud hyn mewn ffordd sy'n annog pobl i agor a rhannu. Byddwch yn ychwanegu gwerth sylweddol at ein partneriaid, drwy eich rhyngweithio eich hun a thrwy hwyluso mynediad at becyn pwrpasol o wasanaethau, y byddwch yn chwarae rhan allweddol yn ei effeithiolrwydd wrth adolygu.

Byddwch wedi ymrwymo i ddysgu a chefnogi eraill i ddysgu (o fewn partneriaid ac ar draws partneriaid) gyda ffocws ar wella yn hytrach na 'gwneud pethau'n iawn'. Gan ddefnyddio'r ddealltwriaeth o'r sector a sicheir drwy berthnasoedd cadarn â chymheiriaid, byddwch yn annog ac yn herio cydweithwyr yn fewnol i sicrhau bod eu gwaith yn ymateb i anghenion ein partneriaid.

## Prif ddyletswyddau

- Arwain ac ysbrydoli partneriaid i alluogi Chwaraeon yng Nghymru i ffynnu. Darparu'r cyswllt lefel strategol â sefydliadau partner – gan ymgorffori eich hun yn y sefydliad er mwyn sicrhau dealltwriaeth drylwyr a pharhau i fod yn ddiduedd hefyd.
- Datblygu perthnasoedd dibynadwy gyda phartneriaid allweddol er mwyn cefnogi a herio uchelgeisiau strategol a sbarduno newid trawsnewidiol.
- Gweithio gyda phartneriaid, ym mha ffordd bynnag sy'n gweddu orau iddynt hwy, i greu trafodaeth, datblygu gwybodaeth a thystiolaeth, a datblygu dysgu'n gysylltiedig â meysydd a fydd yn galluogi cyflawni ar y cyd y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.
- Rhoi cymorth i bartneriaid i adnabod meysydd o her a chyfleoedd. Gweithio gydag eraill ar draws Chwaraeon Cymru, i hwyluso ac adolygu pecyn gwasanaeth pwrpasol ar gyfer partneriaid sy'n cyfateb i anghenion a dulliau gweithredu partneriaid.
- Hysbysu a chefnogi cydweithwyr o bob rhan o Chwaraeon Cymru i ddatblygu dysgu allweddol, argymhellion polisi a goblygiadau o ran adnoddau drwy wybodaeth sy'n cael ei chasglu o weithio gyda phartneriaid.
- Hwyluso digwyddiadau dysgu dan arweiniad partneriaid a gweithio gydag eraill ledled Chwaraeon Cymru i hwyluso cyfleoedd cydweithredol i bartneriaid sy'n gweithio ar faterion tebyg ddod at ei gilydd i wneud hynny.
- Bod yn gyfforddus i reoli'r tensiynau sy'n deillio o anghytuno cryf a gwahaniaeth barn. Bod â'r hyder i edrych ar y materion sylfaenol i helpu pobl i ddeall a pharchu safbwyntiau ei gilydd.
- Gwneud defnydd priodol o wahanol fathau o dystiolaeth, data a gwybodaeth i gefnogi penderfyniadau gweithredol a llywio cyfeiriad strategol. Cefnogi partneriaid i ddeall ac ymateb i'w hanghenion gwybodaeth.
- Cyflawni cyfrifoldebau sy'n cyfrannu at ddarparu gwasanaeth rhagorol i Chwaraeon Cymru mewn perthynas â'n dyletswyddau statudol, gan gynnwys Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Cydraddoldeb, Diogelwch Gwybodaeth, Rheoli Risg, Diogelu, Rheoliadau Ariannol ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Gweithio'n hyblyg, gan gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl y gofyn, os yw hynny'n berthnasol i'r swydd ac yn briodol i'w graddfa.

Byddwn yn:

### Dysgu Gyda'n Gilydd

Archwilio, profi ac adolygu yn gyson.

### Cyflawni Gyda'n Gilydd

Rhannu canlyniadau, meithrin perthnasoedd agored a gonest, darparu adborth cadarn, gwella perfformiad yn gyson.

### Dathlu Gyda'n Gilydd

Cydnabod ein llwyddiannau a rennir drwy bartneriaid effeithiol.

Drwy wneud y canlynol:

### Gweithredu'n Ddidwyll

Deall a Pharchu diwylliant a gwerthoedd ein gilydd. Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

### Ychwanegu Gwerth

Sicrhau'r gymysgedd orau bosib o gefnogaeth, her, buddsoddiad, sgiliau ac arbenigedd i gyflawni ein canlyniadau a rennir.

### Annog Arloesi

Croesawu syniadau a dulliau gweithredu newydd a chefnogi uchelgais a meddwl o'r newydd. Peidio ag ofni teimlo'n anghyfforddus.

## Manyleb y Person

	Gofynion Hanfodol	Gofynion Dymunol
<b>Addysg:</b>	Addysg hyd at lefel gradd (neu gyfatebol)  Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol ym maes arweinyddiaeth a rheolaeth	Cymhwyster ôl-raddedig mewn maes perthnasol
<b>Profiad:</b>	Profiad sylweddol o reoli perthnasoedd ar lefel strategol, ar draws ystod amrywiol o bartneriaid  Dylanwadu ar dimau arweinyddiaeth, strategaethau partner a pholisi  Seilio penderfyniadau ar ddysgu, gwerthuso a thystiolaeth o risg	Profiad o arweinyddiaeth strategol mewn diwydiant cysylltiedig  Y gallu i ddylanwadu ar bolisi a strategaeth chwaraeon ar lefel system  Tystiolaeth o gefnogi Timau Gweithredol yn rhagweithiol
<b>Sgiliau, Doniau a Galluoedd:</b>	Dealltwriaeth o gymhlethdod ac yn gallu dangos eich bod yn gyfforddus yn gweithio fel hyn Gallu meithrin perthnasoedd dibynadwy a all wrthsefyll gwahaniaeth barn ac anghytuno	Sgiliau dwyieithog neu amlieithog  Deall elfennau hanfodol timau perfformiad uchel ac yn gallu meithrin y rhain gan ddefnyddio sgiliau arwain effeithiol

cryf, gan barhau i fod yn ddiduedd hefyd

Arwain ac ysbrydoli eraill, gan ennill parch cydweithwyr a phartneriaid

Gallu procio i sicrhau dealltwriaeth ddyfnach a'r sgiliau i wneud hyn mewn ffordd sy'n annog pobl i agor a rhannu

Gallu trosi bwriad strategol yn ddarpariaeth weithredol

Ymrwymiad i ddysgu a chefnogi eraill i ddysgu – ffocws ar wella ac nid ar 'gael pethau'n iawn'

Gallu arwain newid a blaenoriaethu a gweithio mewn ffordd hyblyg

Yn llawn cymhelliant gyda ffocws ar ddatrysiadau, gyda'r gallu i weithio'n gyflym

Gallu cyfathrebu gan ddarbwylllo a gyda dylanwad ar lefel uwch, ar lafar ac yn ysgrifenedig

Y gallu i sefydlu prosiectau, gosod nodau, diffinio swyddogaethau a thracio cynnydd, adolygu, gwerthuso a gweithredu'r hyn a ddysgir i sicrhau'r effaith orau bosib

**Amgylchiadau  
Arbennig:**

Y gallu i weithio'n hyblyg gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa arferol

Y gallu i deithio yn ôl yr angen

Unigolyn brwd a dymunol gyda hygredded a phroffil i ennyn hyder a pharch gan bartneriaid